| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Y CYNGOR** |
| DYDDIAD: | **21 IONAWR 2010** |
| TEITL YR ADRODDIAD: | **GWYLIAU YSGOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | **DARPARU GWYBODAETH AR GYFER RHYBUDD O GYNNIG** |
| AWDUR: | **DEWI R JONES PENNAETH ADDYSG** |

## CYFLWYNIAD

Mae'r rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd John Pughe Roberts fod ysgolion Gwynedd fel ysgolion eraill yng Nghanolbarth a De Cymru yn cau ddydd Gwener, 16 Gorffennaf 2011.
Hanfod trefn o'r fath yw fod plant, rhieni ac athrawon yn ogystal ag eraill sy'n gweithio yn ein hysgolion yn wynebu anhawster wrth geisio mynychu'r Sioe Frenhinol oherwydd trefn gwyliau ysgol yng Ngwynedd a Chonwy. Yn y flwyddyn 2011, yr hen Sir Gaernarfon, sef rhan o Wynedd a rhan o Sir Conwy, fydd yn noddi Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd.

## CEFNDIR

Yng nghyfarfod o'r GRŴP TASG RHYNG-AWDURDOD GOGLEDD CYMRU (grŵp o swyddogion Addysg o dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Addysg Conwy) ar 8 Ebrill 2008, gosodwyd rhestr ddrafft dyddiadau gwyliau 2010-16 ar yr agenda. Trafodwyd y rhestr gan ddilyn patrwm y penderfynwyd arno gan holl awdurdodau Gogledd Cymru, sy'n cynnwys Gwynedd, Môn, Conwy, Dinbych, Fflint a Wrecsam.

## OBLYGIADAU:

### CYFANSODDIADOL

Petai'r Cyngor am newid y drefn gwyliau mae oblygiadau cyfansoddiadol angen eu hystyried. Mae'r rhain yn berthnasol i bob Sir yn y Gogledd. Er enghraifft, byddai newid yn tanseilio'r meini prawf a'r cytundeb gydag awdurdodau eraill wrth bennu dyddiadau, sydd yn cynnwys nifer o ffactorau wedi eu blaenoriaethu, e.e. defnyddio blociau wythnos gyfan; cychwyn y flwyddyn ysgol ar 1 Medi (neu

ar ôl hynny); cael y gwyliau hanner tymor mor agos i ganol y tymor ag sy'n bosib. Mae'r criteria hefyd yn cynnwys ffactorau eraill megis pa bryd i osod gwyliau'r Pasg (os byddai penwythnos Y Pasg yn disgyn yn fuan) a defnyddio wythnos y Sioe Frenhinol fel wythnos gyntaf gwyliau'r haf os yn bosib. Yn ogystal, mae'n rhaid hefyd wrth gwrs sicrhau bod ysgolion yn agored am 195 diwrnod yn ystod blwyddyn academaidd.

Trafodwyd wythnos Y Sioe Frenhinol yn 2011 a 2016 (ble mae dyddiadau'r Sioe ac wythnos olaf y tymor ysgol yn gwrthdaro) ond nid oedd aelodau'r Grŵp Tasg yn credu bod hyn yn teilyngu blaenoriaeth arbennig.

Yn dilyn y cyfarfod o'r Grŵp Tasg ar 8 Ebrill, 2008, bu cyfnod o ymgynghori (hyd at 16 Mai 2008), ac wedi hynny daeth cynrychiolwyr yr holl awdurdodau at ei gilydd unwaith yn rhagor a chytuno ar ddyddiadau ar gyfer gwyliau 2010 – 2016.
Yn dilyn hyn, trafododd yr awdurdodau'r dyddiadau gyda'r undebau a'r penaethiaid yn ystod y cyfnod o ymgynghori pellach hyd at 10 Gorffennaf, 2008. Yna rhannwyd y wybodaeth derfynol gyda'r ysgolion yn fuan wedi hynny.

Dylid nodi bod y Cyngor wedi ymddiried y gwaith o drafod gwyliau ysgol i swyddogion yr Adran Addysg mewn cyd weithrediad â chynrychiolwyr undebau'r athrawon. Byddai unrhyw weithredu gwahanol yn tanseilio'r cydweithio a sefydlwyd. Byddai hyn yn wir hefyd am y cydweithio trawsawdurdod.

(Mae'r sylwadau uchod yn grynodeb o'r drefn a ddilynwyd, a'r ymgynghori a gyflawnwyd wrth gyrraedd at y penderfyniadau. Dilynwyd yr un drefn wrth ymdrin â'r mater hwn ag y gwnaed yn y gorffennol a hynny ar sail yr un meini prawf.)